



cleifion ar ôl anesthetig rhanbarthol

Cawsoch **anesthetig rhanbarthol** ar gyfer eich triniaeth heddiw.

Mae hyn yn golygu eich bod wedi cael pigiad a wnaeth un o'ch aelodau'n ddideimlad, er mwyn caniatáu i chi gael y llawdriniaeth yn gyfforddus heb gael eich rhoi i gysgu.

Cwestiynau diogelwch cyffredin:

Dylai'r anesthetig bara rhwng 4 a 24 awr (10-12 awr ar gyfartaledd). Yn ystod yr amser hwn rhaid i chi:

- Warchod eich braich rhag anaf trwy wisgo sling.
- Osgoi defnyddio'ch braich nes bod y gweithrediad wedi dychwelyd yn llwyr, neu'n hirach os bydd eich llawfeddyg yn eich cynghori.
- Dechreuwch gymryd eich cyffuriau lleddfu poen rheolaidd ar bresgripsiwn cyn gynted ag y bydd yr anesthetig yn dechrau pylu.

Gall gymryd mwy na 48 awr i'r bloc dreulio'n llwyr. Gall hyn fod yn normal, ond os ydych chi'n bryderus, cysylltwch â'r Hwb Llawfeddygol.

Dylech gysylltu â'ch meddyg teulu neu 111 os ydych chi'n profi:

- Tymheredd uchel.
- Pryderon ynghylch clwyfau e.e. gwaedu, chwyddo, cochni, crawn/arllwysiad.
- Poen difrifol neu sy'n gwaethygu.

Rhifau cyswllt allweddol

- Hwb Llawfeddygol (8am-5pm Llun-Gwener):
Hwb Llawfeddygol (Llawr Cyntaf) - **02921 826510**
Hwb Llawfeddygol (Llawr Gwaelod) - **02921 826348**
- **Eich Meddyg Teulu**
- **111** ar gyfer gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau neu'r Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys